Cyngor y Gweithlu Addysg
Education Workforce Council

# Priodoldeb i Ymarfer

## Gwybodaeth i ymarferwyr addysg sy’n ymgeisio i gofrestru

**Rwyf wedi derbyn llythyr gan y Tîm Priodoldeb i Ymarfer ar ôl ymgeisio i gofrestru. Beth mae hyn yn ei olygu?**

Darllenwch y llythyr yn ofalus.

Mae'r llythyr yn esbonio bod gwybodaeth rydych wedi'i datgan yn eich ffurflen gais i gofrestru yn cael ei hystyried gan Gyngor y Gweithlu Addysg (‘CGA’).

Mae gan CGA gyfrifoldeb i benderfynu a allai gwybodaeth am unrhyw gamau disgyblu/rheoleiddio/camau troseddol yn eich erbyn sydd yn yr arfaeth neu yn y gorffennol, eich gwneud yn anaddas i gofrestru.

**A wyf wedi gweithredu’n groes i 'safon' ymddygiad neu berfformiad?**

Rôl CGA yw penderfynu a ydych wedi gwneud hynny ai peidio, ac o ganlyniad, a ydych yn addas i gael eich cofrestru yng Nghymru.

**‘Ystyr ‘ addas' yw bod CGA yn fodlon bod yr ymgeisydd yn bodloni'r safonau a ddisgwylir gan berson cofrestredig.**

Ni fydd CGA yn caniatáu i ymarferydd addysg ymuno â'r Gofrestr lle mae ganddo bryderon difrifol nad yw safonau wedi'u bodloni.

Mae Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol CGA yn ganllaw i’r safonau y gall dysgwyr, rhieni a’r cyhoedd eu disgwyl gennych, ac mae’n eich helpu i ddeall yr hyn mae eraill yn ei ddisgwyl gennych fel gweithwyr proffesiynol. Nid yw'n trafod pob enghraifft o safonau y mae angen i ymarferwyr addysg eu bodloni.

**Beth sy'n digwydd nawr? A oes angen i mi wneud unrhyw beth?**

Bydd CGA yn ystyried difrifoldeb yr wybodaeth a dderbyniwyd amdanoch, ac yn penderfynu beth ddylai ddigwydd nesaf. Yna bydd yn anfon llythyr atoch yn esbonio'i benderfyniad.

---

Mae’n bosibl y bydd CGA **yn caniatáu i chi gofrestru** yn gyflym oherwydd, er enghraifft, bod trosedd yn un gymharol fân.

---

Mae’n bosibl y bydd CGA yn gofyn i chi esbonio’n fwy yn ysgrifenedig . **Mae CGA yn argymell yn gryf y dylech gysylltu â'ch undeb ar yr adeg hon er mwyn iddo roi'r arweiniad a'r cymorth y bydd eu hangen arnoch.**

Dylech ddarllen y llythyr mae CGA yn ei anfon atoch yn ofalus ac ymateb iddo erbyn y dyddiad a nodir.

Gallai CGA **ganiatáu i chi gofrestru** ar ôl ystyried yr hyn rydych wedi ei ddweud. Fodd bynnag, os yw'n dal i deimlo bod angen mwy o wybodaeth, bydd yn eich gwahodd i gyfarfod.

## Beth sy'n digwydd mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Addasrwydd?

Bydd Pwyllgor Addasrwydd yn penderfynu a ddylid caniatáu i chi gofrestru ai peidio.

Cyfarfod preifat yw hwn.

Bydd CGA yn anfon llythyr atoch a fydd yn nodi manylion y gwrandawiad, ac yn gofyn i chi ymateb.

Fe'ch gwahoddir i esbonio wrth y Pwyllgor pam rydych yn addas i gofrestru yng Nghymru, gan ystyried yr wybodaeth mae wedi'i derbyn amdanoch.

Gallai'r Pwyllgor **ganiatáu i chi gofrestru** yn y cyfarfod hwn. Fodd bynnag, os nad yw'n fodlon o hyd o'ch addasrwydd ar ôl cyfarfod â chi a chlywed yr hyn sydd gennych i'w ddweud, gallai benderfynu gwrthod caniatáu mynediad i chi i'r Gofrestr**.**

Mae gwybodaeth fanylach am yr hyn i'w ddisgwyl mewn cyfarfod i'w chael yn y daflen 'Gwybodaeth i ymgeiswyr: rhoi tystiolaeth mewn cyfarfod'.

## Nid wyf yn aelod o undeb. Beth dylwn ei wneud?

Mae CGA yn eich annog yn gryf i geisio cyngor a chymorth proffesiynol gan, er enghraifft, undeb neu gymdeithas broffesiynol, cyn gynted ag y byddwch yn derbyn llythyr gan CGA yn gofyn i chi ymateb. Os nad ydych yn aelod o sefydliad o'r fath, dylech geisio cael cyngor proffesiynol arall, er enghraifft, gan gyfreithiwr neu swyddfa Cyngor ar Bopeth cyn ymateb.

Dylech nodi ei bod yn annhebygol y bydd cyllid cyfreithiol ar gael i ymarferwyr addysg o dan y gweithdrefnau hyn. Ni fyddwch yn gallu hawlio eich costau yn ôl gan neb arall sy'n gysylltiedig.

## Ynghylch y daflen hon

Crynodeb bras yw'r wybodaeth yn y daflen hon o weithdrefnau addasrwydd CGA.

O dan unrhyw amgylchiadau, *Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 fel y'i diwygiwyd* a *Rheolau Cofrestru 2024* CGA sy'n cael blaenoriaeth. Mae'r Rheolau a gwybodaeth arall am rôl rheoleiddio CGA i'w gweld yn www.cga.cymru

Nid oes unrhyw reolau cyffredinol yn berthnasol wrth benderfynu a yw ymarferydd addysg yn addas i gofrestru.

## Cysylltiadau allweddol

Swyddog a enwir o'r Tîm Priodoldeb i Ymarfer fydd eich pwynt cyswllt.


**Cyfeiriad** **Y Tîm Priodoldeb i Ymarfer**, Cyngor y Gweithlu Addysg, 9fed Llawr, Eastgate House, 35-43 Ffordd Casnewydd, Caerdydd, CF24 0AB

**Ffôn** 029 2046 0099

**E-bost** priodoldebiymarfer@cga.cymru


Caiff personau cofrestredig sy'n ddarostyngedig i'r gweithrediadau hyn gyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i CGA yn Gymraeg neu Saesneg.